## WILLIAM TROUGHTON yn olrhain peth o hanes datblygiad

# Y CERDYN POST DARLUNIADOL YNG NHYMRU

MAE'N siŵr fod nifer o aelodau'r Gymdeithas yn cofio'r gyfres o stampiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Bost y llynedd i ddathlu canmlwyddiant y cerdyn post. Y mae cynllun y stampiau yn dwyn i gof y cardiau doniol hynny a werthir yn y canolfannau gwyliau, sef y rhai sy'n darlunio gwragedd llond eu croen a gŵyr sy'n amlwg dan y fawd. Rhaid cofio mai dim ond un agwedd o gardiau post yw hyn. Gall cardiau post amrywio'n fawr iawn yn ôl cynllun a thestun. Cawn gyfle i drafod themâu megis hanes cymdeithasol, celf, materion y dydd a phobl adnabyddus yn yr erthygl hon. Hefyd, yn ystod 'oes aur' cardiau post, sef c.1900-18 nid oedd unrhyw agwedd o fywyd bob dydd yn rhy bitw i osgoi sylw'r gwneuthurwyr. Y mae cardiau post yn ffynhonnell bwysig i'r hanesydd lleol, ac nid yw Cymru yn eithriad yn hyn o beth. Y maent hefyd, wrth gwrs, yn teilyngu sylw'r casglwr brwd.

Ar ddiwrnod cyntaf Medi 1894 cafodd cardiau post darluniadol sêl bendith yr awdurdodau, a'u derbyn gan y post am y tro cyntaf. Roedd cardiau post plaen yn meddu ar yr hawl hon er 1870. Dim ond yn Swyddfa'r Post y gellid prynu'r rhain, ac nid oedd angen prynu stamp gan fod yna un wedi ei argraffu ar y cerdyn yn barod. Ysgrifennid y cyfeiriad ar flaen y cerdyn a'r neges ar y cefn. Oherwydd fod y gost o gludo cerdyn drwy'r post yn hanner y gost a godid am lythyr daethant yn boblogaidd iawn o fewn cyfnod byr. Arwyddocâd Medi 1af 1894 yw mai dyma'r dyddiad y gwnaethpwyd i ffwrdd â'r drefn fod yn rhaid i Adran Gyllid y Llywodraeth argraffu stamp parod ar y cardiau. O hyn ymlaen roedd gan bobl hawl i lynu stamp ddimai ar gerdyn a gynhyrchwyd yn breifat. Yn fuan iawn gwelwyd gwneuthurwyr Prydeinig yn efelychu'r cardiau darluniadol oedd mewn bri yn Ewrob, yn enwedig yn yr Almaen, ac erbyn troad y ganrif roedd casglu cardiau post yn boblogaidd iawn. Ychwanegwyd at yr atyniad o gasglu cardiau post pan gafwyd yr hawl i gynyddu eu maint yn 1895 i faint 'court', ac yna yn 1899 i'r maint yr ystyrir yn arferol gennym ni heddiw, sef 3½" wrth 5½". Rhan olaf esblygiad y cerdyn post oedd rhannu'r cefn yn ddwy, fel bod modd 'sgrifennu'r cyfeiriad a'r neges ar yr un ochr, gan ryddhau'r ochr arall ar gyfer darlun. Digwyddodd hyn am y tro cyntaf yn 1902.

Mae'n anodd i ni amgyffred heddiw pa mor boblogaidd oedd anfon cardiau post. Erbyn i Edward VII esgyn i'r orsedd roedd trigolion Prydain yn fwy llythrennog, ac yn teithio mwy nag erioed o'r blaen. Roedd ganddynt y modd a hefyd fwy o achos i ddymuno cyfathrebu drwy'r post nag yn y gorffennol. Ychwanegwch at hyn wasanaeth post effeithiol, hyd at chwe chasgliad y diwrnod yn y dinasoedd poblog, ac awydd dihysbydd merched ifanc i gasglu cardiau post, a dyna chi wedi nodi rhai o'r ffactorau y tu cefn i boblogrwydd cardiau post. Gwybodaeth ddigon tebyg i'n galwadau ffôn ni heddiw yw cynnwys y rhan fwyaf o'r negeseuon. Fe'u gwerthid mewn sawl man, yn aml mewn paciau o chwech neu ddwsin. Yn 1909 aeth 866 o filiynau o gardiau trwy law Swyddfa'r Post, sef 22 o gardiau ar gyfer pob gŵr, gwraig a phlentyn yn y deyrnas. Ar gyfartaledd roedd Swyddfa'r Post yn Aberystwyth yn trafod 1,300 o gardiau post bob diwrnod yn ystod mis Awst 1909. Ond rhagorwyd ar hyn wythnos olaf mis Awst 1903, pan drafodwyd 24,000 ohonynt. Wrth reswm, aeth y rhan fwyaf ohonynt i ebargofiant yn weddol fuan. Ond amcangyfrifir fod rhwng 3 a 5% o gardiau post Edwardaidd wedi goroesi.

Ymhlith y cwmnïau cyntaf i ddefnyddio golygfeydd o Gymru ar gardiau post roedd James Valentine o Dundee a Francis Frith o Reigate. Roedd sylfaenwyr y ddau gwmni yn gyfarwydd â gwerthu ffotograffau o olygfeydd ar hyd a lled Prydain ers 50au'r ganrif. Ac felly roeddynt ill dau mewn sefyllfa dda i gychwyn cynhyrchu a dosbarthu cardiau post. Y cerdyn post darluniadol cyntaf o Gymru y gwn amdano yw un a gyhoeddwyd gan gwmni 'Cenedlaethol' Raphael Tuck & Co. yn 1894. Llun o gopa'r Wyddfa sydd ar y cerdyn, ac mae'n debyg mai ger y fan honno y gwerthid y cerdyn. Dim ond bwrw amcan allwn wneud ynglŷn â sawl cerdyn a werthwyd, yn enwedig o gofio na chychwynnodd y Trên Bach ar ei thaith gyntaf tan y flwyddyn ddilynol.

Nid oedd y cyhoeddwyr 'Rhanbarthol' ymhell ar ei hôl hi ychwaith, sef y cwmnïau a ffotograffwyr a oedd yn arbenigo mewn golygfeydd o ardaloedd neilltuol. Y mae Ffotograffwyr Tirlun, Darlun a Chelfyddyd Gain Llandrindod ymhlith yr enghreifftiau cynharaf. Cyhoeddodd y cwmni tua chwe chant o wahanol gardiau post rhwng c.1903-09, y rhan fwya'n cynnwys golygfeydd ar hyd a lled Cymru, ond hefyd cyfres o luniau aelodau seneddol Cymru a chartwnau. Mae Ernest Bush o Gaerdydd hefyd yn enghraifft ddigon tebyg. Bu'n brysur yn cofnodi pentrefi glofaol, pyllau glo, dociau, adeiladau dinesig a strydoedd prysur de Cymru. Y mae ei waith yn boblogaidd iawn ymysg casglwyr, ond nid yw ei drefn rhifo anghyffredin o unrhyw gymorth. Daeth i amlygrwydd yn y byd cardiau post am y tro cyntaf yn dilyn ei apwyntiad yn ffotograffydd swyddogol y Pasiant Cenedlaethol Cymreig yn 1909. Bu farw'n ddyn cymharol ifanc yn 1930, yn 54 mlwydd oed. Gadawodd gannoedd o olygfeydd o dde Cymru ar ei ôl.

Er yn gyfrifol am lai o gardiau na'r cyhoeddwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol, y cyhoeddwyr lleol sy'n gyfrifol am y cardiau topograffig mwya diddorol. Yn dilyn dyfodiad emylsiynau ffotograffig wedi eu gosod ar gardiau mwy trwchus c.1905 roedd modd i ffotograffwyr dynnu lluniau pob math o olygfeydd a digwyddiadau lleol, ac yna printio cyn gymaint neu gyn lleied o gardiau ag oedd eu hangen o fewn ychydig oriau. Dyma'r cardiau post a elwir yn 'Real Photographic' sy'n denu sylw'r casglwr brwd, am eu bod yn rhoi i ni ddarlun mor fanwl o fywyd bob dydd yn ystod y cyfnod Edwardaidd. Roedd gan pob tref a phentref ei ffotograffydd lleol, a fyddai'n cofnodi hynt y capel lleol, swyddfa'r post, y dafarn, teithiau ysgol Sul a'r carnifal. Derbyniai'r cyrchfannau gwyliau wasanaeth arbennig o dda. Er enghraifft, dyma rai a oedd yn gwasanaethu gogledd Ceredigion: E. G. Crudge (Tregaron a Pontrhydygroes), C. H. Dierks (Aberaeron, Llannon a Llanrhystud), J. Meurig Edwards (Bow Street), E. O. Jones (Talybont a Taliesin), Williams (Borth), E. R. Gyde, William Jenkins, Lewis y Mart, Pickford (i gyd yn Aberystwyth).

Fel arfer gwerthid y cardiau post o dŷ neu fusnes y ffotograffydd, e.e., Williams 'Borth Pharmacy'. Sylwer ar y cardiau yn ffenestr y siop, ar yr ochr chwith yn y llun. Roedd gwaith Mr Williams bob amser yn lleol iawn, bydded yn olygfeydd lleol neu westeion lleol yn mwynhau eu hunain ar y traeth. Niferoedd bychan iawn o'r cardiau hyn a gynhyrchwyd.

Gwerthai Arthur Lewis, neu 'Lewis y Mart' fel y'i gelwid gan drigolion Aberystwyth, ei gardiau post o'i siop yn Stryd y Porth Mawr. Hefyd roedd modd prynu careiau 'sgidiau, sebon, powdwr golchi, teganau a llestri tseina yn y siop! Etifeddodd ddiddordeb mewn ffotograffiaeth gan ei dad a oedd wedi bod yn cadw stiwdio ffotograffiaeth fechan ar un cyfnod. Dechreuodd gynhyrchu cardiau post c.1910 ac fe barhaodd i wneud hyn at yr Ail Ryfel Byd. Y cardiau mwyaf nodweddiadol o'i waith sydd wedi goroesi hyd heddiw yw'r rhai sy'n portreadu gwersylloedd y Fyddin Diriogaethol a godai fel madarch yng nghylch Aberystwyth bob haf hyd at 1914, a chardiau sy'n dangos y difrod i'r promenâd a achoswyd gan storm fawr yn 1938. Ef hefyd sy'n gyfrifol am y cerdyn sy'n dangos y bad achub yn cael ei lansio ar Fehefin 29, 1910. Roedd lansio bad achub yn ddigwyddiad eithaf cyffredin ac felly roedd modd gwerthu'r cerdyn am sawl blwyddyn i ddod. Ond gyda phob print byddai ansawdd y negydd yn dirywio, gyda chrafiadau yn berygl cyson. Ac felly roedd yn




*'Borth Pharmacy' siop yn Y Borth, ger Aberystwyth. Roedd gwaith Mr Williams bob amser yn lleol. Sylwer ar y cardiau post sydd yn cael eu dangos yn y ffenestr ar y chwith.*